

Busnes Agored y Cyngor – cofnodion 1 i 13 yn gynhwysol.

1. Presenoldeb, Ymddiheuriadau a Chyflwyniadau

Yn Bresennol: John Graystone (yn Cadeirio), Gayle Hudson, Iwan Hywel, Toni Schiavone (Is-gadeirydd), David Elis-Williams, Cathy Clark (trwy gyswllt fideo gartref), Gareth Cork, Suzanne Samuel, Jenni Jones-Annetts, Chris Franks. Roedd cworwm yn y cyfarfod.

Yn Mynychu: Kathryn Robson (Prif Weithredwr), Mark Baines (Pennaeth Cwricwlwm a Pherfformiad – trwy gyswllt fideo yn swyddfa Caerdydd), Cath Hicks (Pennaeth Gwasanaethau Dysgwyr ac Adnoddau – trwy gyswllt fideo yn swyddfa Caerdydd), Michelle Kerswell (Rheolwr y Cwricwlwm a Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg), Stephen Thomas (Ysgrifennydd/Clerc y Cwmni); Sandra Williams (cyfieithydd ar y pryd). Hefyd Ashok Chopra a Nicola Holmes (Swyddog Cyflwyno'r Cwricwlwm, rhanbarth y Gogledd) ar gyfer cofnodion 1 a 2 yn unig.

Ymddiheuriadau: Julie Cook, Caroline Davies, Gerry Jenson, Stephen Nicholls, Sonia Reynolds (Is-gadeirydd), Dafydd Rhys, Nick Taylor, Guy Wallace Smith, Heather Willbourn.

Gwnaed cyflwyniadau byr, gan gynnwys y rheiny ar ddau gyswllt fideo ar wahân i'r cyfarfod, sef cyfarfod cyntaf y Cyngor a fynychodd Gareth Cork (llywodraethwr staff etholedig yn lle June Jeremy, a oedd wedi camu i lawr ers y cyfarfod diwethaf) a Suzanne Samuel ers eu dyrchafiad. Rhoesant ddisgrifiadau byr am eu cefndiroedd. Hefyd, manteisiodd y Cyngor ar y cyfle yn ffurfiol i gymeradwyo penodi Suzanne Samuel yn aelod o'r Cyngor.

2. Astudiaeth achos o brofiad dysgwr gyda'r sefydliad

Siaradodd Ashok Chopra am ei ddamwain car yn 2011 a oedd wedi achosi iddo golli hyder, a'r ffaith ei fod, o ganlyniad i gofrestru ar gwrs cwnsela gyda'r sefydliad ar ôl hynny, wedi mynychu Prifysgol Glyndŵr, i ddilyn cymhwyster addysgu TAR. Roedd bellach yn diwtor yn Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales ar yr union cwrs y dechreuodd ei ddilyn pan oedd yn ddysgwr. Pwysleisiodd bwysigrwydd y ffaith iddo dderbyn cefnogaeth gref gan unigolion allweddol yn y sefydliad trwy gydol ei broses ddilyniant, a fu'n hanfodol yn y cyfnodau is yn emosiynol. Wedi iddo dderbyn Gwobr Partneriaeth Dysgu Oedolion yn y Gymuned Wrecsam yn 2017, roedd bellach yn dilyn cwrs gradd. Wrth drafod, cytunwyd bod rhoi manylion priodol a hygyrch (h.y. dealladwy) i'n darpar ddysgwyr yn hanfodol o hyd – roedd Ashok wedi codi taflen wybodaeth yn wreiddiol, er enghraifft; a dylid defnyddio hanesion fel ei hanes ef mewn cynifer o etholaethau gwleidyddol ag y bo modd, i gynorthwyo â'n gwaith yn dylanwadu ar Aelodau Cynulliad ac Aelodau Seneddol.

3. Cofnodion y Busnes Agored yng nghyfarfod y Cyngor ar 6 Medi 2018 a materion yn codi

Cymeradwywyd cofnodion trafodion y cyfarfod Busnes Agored ar 6 Medi 2018 a gynhaliwyd yn Oriel Glynn Vivian, Abertawe, yn gofnod cywir. Yr un pwynt a godwyd oedd nifer gynyddol y bobl a oedd yn absennol yn y cyfarfod hwnnw ac yn y cyfarfod a oedd newydd ddechrau yn Wrecsam. Derbyniwyd

amrywiaeth eang o resymau am yr ymddiheuriadau ar y naill ddiwrnod a'r llall, a chadarnhawyd bod y Cadeirydd wedi trafod absenoldebau olynol gyda dau aelod o'r Cyngor yn ddiweddar.

4. Adroddiad y Prif Weithredwr, Tachwedd 2018

Dechreuodd Mark Baines trwy ddatgan bod targedau perfformiad allweddol ar gyrhaeddiad a llwyddiant myfyrwyr ac ar gyllid a dderbyniwyd wedi cael eu bodloni ar gyfer 2017-18, a bod cydbwysedd cywir yn y rhaniad rhwng darpariaeth achrededig a darpariaeth anachrededig ar gyfer y flwyddyn, sef 81%/19%. Esboniwyd am y ffigurau cyrhaeddiad a llwyddiant isel yn y cyfansymiau Gwaith Ieuenctid, Cymuned a Chwarae mewn tabl ar dudalen 3. Roedd y gwaith ym maes Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) yn Abertawe, Casnewydd a Wrecsam ar fin cael ei ehangu, ac roedd Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales mewn sefyllfa dda i fanteisio arno oherwydd ein gwaith presennol yn y prosiect tebyg Mynediad at Gyfathrebu ac Integreiddio (ACI), yn canolbwyntio ar Gaerdydd.

Rhodddwyd sylw wedyn i'r papur ychwanegol ar Gynllun Gweithredu Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg a Dwyieithog, y siaradodd Michelle Kerswell amdano. Esboniodd ei bod wedi cymryd camau ers ei phenodiad hi a phenodiad rhannol Dafydd Rhys yn ddiweddar i rôl benodol newydd cyfrwng Cymraeg, y 3 nod trosfwaol a amlinellir yn y papur, a'r ymwybyddiaeth a oedd wedi treiddio trwy'r sefydliad fod angen twf pwrpasol yn y maes hwn – er y byddai hynny'n golygu amrywiadau daearyddol o ran darpariaeth. Credai Toni Schiavone y dylem ganolbwyntio ar ddau neu dri math arbenigol o addysg yn y maes hwn (dysgu teuluol, er enghraifft) a gan fod recriwtio staff addas wedi bod yn wendid cyson hyd yma yr oedd angen ei gryfhau'n sylweddol. Credai David Elis-Williams fod y dirywiad, a nodwyd mewn cyfarfodydd diweddar, mewn cyrsiau a gynhelir mewn ardaloedd gwledig, er nad oedd yn union yr un mater, yn cynrychioli gorgyffwrdd sylweddol o bosibl â chysiau Cymraeg/dwyieithog. Roedd sefydliadau a oedd yn cwmpasu'r ddau angen, fel Clybiau Ffermwyr Ifanc Cymru neu Merched y Wawr, yn gallu bodloni ein hanghenion fel partneriaid o ran y naill a'r llall. Cadarnhaodd Michelle Kerswell y bu cyswllt â'r cyrff hyn eisoes, yn ogystal â gyda Cymraeg i Oedolion, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac Urdd Gobaith Cymru – pob un ohonynt yn gysylltiadau ar lefel strategol. Trafodwyd cysylltiadau â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (WESP) ym mhob awdurdod unedol, a chadarnhawyd bod ein targed o 5% ar gyfer cyflwyno cyrsiau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog yn un cyfunol yn gyffredinol, heb ei rannu yn dargedau ar wahân ar gyfer darpariaeth achrededig a darpariaeth anachrededig. **Cafodd y Cynllun Gweithredu hwn, a oedd wedi bod ger bron Grŵp Cymraeg a Dwyieithrwydd eisoes, ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Cyngor.**

O ran gweithgarwch y canghennau, roedd llawer mwy yn digwydd na'r hyn a gofnodwyd yn yr Adroddiad: roedd hyn, yn ôl pob tebyg, am fod swyddfeydd rhanbarthol wedi rhoi diweddariadau, yn hytrach na bod cysylltiad uniongyrchol wedi bod â'r canghennau eu hunain. Dywedwyd bod mwyafrif y costau cymorth gofal plant (£46,814 yn 2017-18) wedi cael eu gwario ar fyfyrwyr ar ein cyrsiau Mynediad at Addysg Uwch. O ran cynnwys neu hepgor y sefydliad o fewn amodau Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992, ni fu unrhyw effaith bendant ar agweddau ar ein gwaith hyd yma, er ei fod yn cael ei dderbyn y gallai barn gyfreithiol ar y mater ddylanwadu mewn egwyddor ar ein normau o ran cyflog, telerau ac amodau a'n categoreiddiad cyffredinol fel corff.

Ar yr ymgynghoriad ar Ddysgu Oedolion yn y Gymuned, roedd y cyfarfodydd mwyaf cynhyrchiol gyda gwleidyddion wedi digwydd gyda John Griffiths AC a Ben Lake AS, er bod arwyddion presennol yn awgrymu y byddai newid tebygol yn y Gweinidog oedd â chyfrifoldeb am Addysg Bellach yn dilyn yr her am arweinyddiaeth y Blaid Lafur/swydd y Prif Weinidog o bosibl yn gohirio gweithredu o ran y camau dilynol. Roedd y Prif Weithredwr wedi ysgrifennu at y 3 ymgeisydd am yr arweinyddiaeth am ein gwaith.

Roedd trafodaeth yn Siambr y Cynulliad Cenedlaethol yn gynharach yn yr wythnos, a gafodd ei monitro gan ColegauCymru, wedi pwysleisio darpariaeth ôl-16 trwy golegau yn bennaf, yn hytrach nag addysg oedolion fel y cyfryw. Holwyd a ddylai fod mwy o arbenigedd ar lobïo - yn wahanol i wybodaeth am farchnata - o fewn y tîm staff ar gyfer sefydliad o'n maint ni. Dywedwyd ein bod wedi defnyddio ymgynghoriaeth lobïo a ColegauCymru i gynorthwyo â'r broses o ymateb i'r ymgynghoriad, ond bod y pwynt a godwyd yn un perthnasol yn gyffredinol.

Yn olaf, o ran y materion setlo cyflog a chyllid yn y dyfodol, roedd y sefydliad – fel yr holl Golegau AB – wedi darparu gwybodaeth i Lywodraeth Cymru am beth fyddai effaith y newidiadau cyllid arfaethedig ar ei chyllidebau. Gofynnwyd a fyddai Llywodraeth Cymru yn gwneud cyfraniad ariannol unwaith yn unig tuag at gynyddu cyflogau, neu p'un a fyddai'n ymrwymiad wedi'i gydgrynhoi flwyddyn ar ôl blwyddyn ganddi: nid oedd hynny'n glir. **Cytunodd y Cyngor â'r egwyddorion a amlinellwyd yn safbwynt ColegauCymru ar y mater ynglŷn â dyfarnu cyflogau, ac fel eithriad, dirprwyodd y cyfrifoldeb am benderfynu ar hyn i'r Pwyllgor Adnoddau a fyddai'n cyfarfod ar 4 Rhagfyr, ar y sail os cadarnheir y byddwn yn cael rhagor o arian gan Lywodraeth Cymru erbyn hynny, felly dylid awdurdodi rhoi'r cynnydd priodol ar waith yn nhaliadau cyflog mis Rhagfyr.** O ran cyllid, bu llawer o drafod a gweithgarwch gydag uwch weision sifil ac roedd adfer cyllideb rannol ar gyfer 2018-19 bellach yn ymddangos yn debygol. Mewn datblygiad heb gysylltiad, cyhoeddodd Kathryn Robson fod y trefniadau newydd ar gyfer arolygu darpariaeth Addysg Oedolion yn y Gymuned wedi cael eu cyflwyno ym mis Medi 2018 gan Estyn a'i bod yn debygol y byddai partneriaeth Addysg Oedolion yn y Gymuned yn cael ei dewis cyn bo hir, fel rhan o arolygiad peilot rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2019. Amlygwyd fod AOC | ALW yn y fath bartneriaeth yn ei rhinwedd ei hun, ac y byddai o bosibl yn cael ei dewis. Yn y cyfamser, roedd yn bwysig fod y sefydliad yn paratoui i fod yn barod ar gyfer arolygiad, naill ai ar gyfer ei arolygiad ei hun neu fel darparwr partner.

5. Diweddariad am safle Coleg Harlech

Cyfeiriodd Kathryn Robson at y papurau ar hyn, a oedd yn cynnwys y prospectws dwyieithog ar gyfer gwerthu safle'r campws, fel y cytunwyd gan y Cyngor yn ei gyfarfod blaenorol. Siaradodd am nerfuswydd Rowland Jones, ar sail ei brofiad proffesiynol fel syrffwr siartredig, ynglŷn ag aros mor hwyr â chyfarfod y Cyngor ar 29 Ionawr 2019 am gymeradwyaeth derfynol ar gynnig ffafriedig, o ystyried mai'r dyddiad cau ar gyfer derbyn tendrau oedd 18 Rhagfyr 2018 ac y byddai Grŵp Llywio Harlech a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn cyfarfod i geisio cytuno ar argymhelliad ar 10 Ionawr 2019.

Cytunodd y Cyngor i ddirprwyo pwerau i Grŵp Llywio Harlech a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i ystyried yr holl gyflwyniadau a dderbyniwyd trwy'r broses dendro, a phe bai yna argymhelliad syml o'u cyfarfod ar 10 Ionawr 2019, y gellid ymgynghori ar hynny ar sail gohebiaeth trwy e-bost gyda'r Cyngor cyfan. Fodd bynnag, pe bai cymhlethdodau o ganlyniad i gynigion amrywiol â chyfuniad o amodau, yna cytunwyd y byddai cyfarfod ychwanegol arbennig o'r Cyngor yn cael ei alw ar fyr rybudd yn benodol ar gyfer gymeradwyo penderfyniad am safle Coleg Harlech.

Hysbyswyd y Cyngor fod Northern Powerhouse Developments eisoes wedi ailgyflwyno'r un cynnig â'r cynnig yn gynharach yn y flwyddyn ganddo (tynnwyd yn ôl wedi hynny), a oedd yn cynnwys y cynllun arfaethedig i brynu Astor Fields – tir nad oedd ar werth yn y broses dendro bresennol.

6. Cofnodion y Pwyllgor Adnoddau a gynhaliwyd ar 12 Hydref 2018; a Chyllid Sefydliadol ar gyfer y Chwarter Cyntaf, Awst – Hydref 2018

Nododd David Elis-Williams fel Cadeirydd y Pwyllgor y newyddion cadarnhaol y gwnaed gwarged bach yng nghyfrif incwm a gwariant blwyddyn ariannol 2017-18 (cofnod 9), ac y byddai'r cais am weithredu wrth hyrwyddo lefelau uwch o gyfraniadau a chymynroddion gan aelodau a chefnogwyr (cofnod 8) yn cael ei ystyried ymhellach, yn greadigol. Ar gofnod 6, lle roedd cyfeiriad at y sefydliad fel 'coleg' mewn dogfennau polisi adnoddau dynol penodol wedi cael ei drafod, cytunwyd bod y dehongliad hwnnw wedi mynd yn rhy bell ynglŷn â phenderfyniad y Cyngor ar y mater yn ei gyfarfod ym Mhlas Tan y Bwlch ym mis Gorffennaf. Cydnabu Kathryn Robson, er ei bod yn gywir diwygio'r cyfeiriadau hynny, ei bod yn ddefnyddiol o hyd defnyddio'r gair â challineb – er enghraifft, mewn cyfeiriadau mewnol at 'Dîm Rheoli'r Coleg', ac at y 'Coleg Cymunedol Cenedlaethol' i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar Addysg Oedolion yn y Gymuned.

Ar y cyfrifon rheoli am dri mis cyntaf y flwyddyn ariannol, dywedodd Mark Baines fod yr holl linellau cyllideb ar y trywydd iawn ar hyn o bryd. I ymateb i ymholiad, dywedodd fod y balans banc o oddeutu £1.5 miliwn yn Handelsbanken y cyfeirir ato ar y fantolen, yn cynnwys balans cyfrif cyfredol o ryw £900,000 yn ogystal â swm o £614,000 a gedwir mewn cyfrif cadw â llog yno (ceir manylion yn nodyn 5). Mewn trafodaeth ar y dudalen Hen Ddyledwyr, ychwanegodd fod yr is-gyfansymiau yno yn cynrychioli cyfuniad o resymau am ddyled, a'r mathau o ddyled, ac nid oedd yn teimlo bod y sefyllfa yn dyngedfennol o ran dyledion mwy hirsefydledig.

7. Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Profiad y Dysgwyr ar 6 Tachwedd 2018; yn ogystal â Chynllun Datblygu Ansawdd a Pherfformiad

Wrth nodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor yn gynharach yn y mis, byddai cwestiwn ysgrifenedig a godwyd gan Stephen Nicholls am **nifer y tiwtoriaid oedd yn addysgu o dan 50 awr y flwyddyn** (categori a grybwyllir yng nghofnod 6, ar Arsyllwadau Addysgu) **yn cael ei ateb yn ysgrifenedig**. Y Cynllun Datblygu Ansawdd a Pherfformiad atodedig, a ddiweddarwyd ychydig ers i'r Pwyllgor ei ystyried, oedd y ddogfen fformat newydd a oedd yn ategu nodau strategol diwygiedig y sefydliad: roedd yn gysylltiedig â Dangosyddion Perfformiad Allweddol yr Uwch Dîm Rheoli (gweler cofnod 8 isod). Roedd lle amlwg i'r Cynllun mewn nifer o gyfarfodydd mewnol, ac roedd yn lliw ambr ar y cyfan gan ei bod yn gynnar yn y flwyddyn academaidd/ariannol, fel bod targedau'n parhau i fod ar waith ac nid oeddent wedi eu cyflawni eto. Roedd y Cadeirydd yn meddwl tybed a oedd yn ymarferol meincnodi ein hunain yn erbyn corff addysgol tebyg arall, yn y DU gyfan yn hytrach nag yng Nghymru o reidrwydd, ar rai o'r mesuriadau a'r dangosyddion perfformiad a ddyfynnwyd. **Byddai Kathryn Robson yn ystyried hynny fel opsiwn i'w gynnwys mewn rhannau o'r ddogfen oedd yn esblygu.**

8. Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs) yr Uwch Dîm Rheoli, 2018-19

Roedd y ddogfen hon yn ddatganiad cryno o'r pwyntiau yn y Cynllun Datblygu, a byddai'n dod i'r Cyngor yn rheolaidd yn y dyfodol. Trafodwyd pwynt 2.1, yn gysylltiedig â'r methiant wrth recriwtio pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn y Cyngor: roedd hon yn her hirsefydledig, a oedd yn bodoli cyn yr cyfuniadau dros y blynyddoedd diwethaf.

9. Cofrestr Risg ar gyfer Tachwedd 2018

Roedd y 2 risg gyntaf ar y Gofrestr, sef y ddwy risg ariannol allweddol i'r sefydliad yn gysylltiedig â chyllid y llywodraeth, wedi cynyddu ers y fersiwn flaenorol a welodd y Cyngor, oherwydd y materion hawlio cyflog a chyllid yn y dyfodol a drafodwyd o dan gofnod 4 uchod. Roedd hyn hefyd yn wir am risg 1.2.2 oedd yn gysylltiedig â rhwymedigaethau pensiwn, gan y byddai cynnydd yng nghyfraniadau cyflogwyr at y Cynllun Pensiwn Athrawon fyddai â goblygiad o oddeutu £200,000 mewn alldaliadau blynyddol i Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales. Roedd rhai o aelodau'r Cyngor yn meddwl tybed a ddylid cynyddu'r sgôr ar y risg benodol honno felly hyd yn oed yn uwch na'i radd ambr bresennol (12 pwynt).

10. Adroddiad Aelodaeth – Tachwedd 2018

Atgoffwyd yr aelodau yn gyflym am ffigurau aelodaeth cymharol dros y tair blynedd flaenorol, ac fe gawsant eu calonogi gan yr arwyddion cynnar o dwf sylweddol yn niferoedd yr aelodau'n deillio o fisoedd cyntaf y polisi newydd ar aelodau oedd yn ddysgwyr, tra'n derbyn ei bod yn rhy gynnar o hyd i wybod pa mor weithredol y byddai'r aelodau newydd hynny o ran ymgysylltu â'r sefydliad. Dywedodd Gareth Cork, ar sail ei brofiad swyddfa, fod y fenter yn cael ei chrosawu'n wresog gan lawer o ddysgwyr. Fodd bynnag, adroddwyd yn gynharach yn yr wythnos yn Fforwm Rhanbarthol y De Ddwyrain nad oedd pob tiwtor yn hyrwyddo'r cynllun: **byddai Michelle Kerswell yn mynd ati i bwysleisio pwysigrwydd ymagwedd gyson a chefnogol at hyn mewn cyfarfodydd tymhorol tiwtoriaid.**

11. Materion llywodraethu – Strwythur pwyllgor ac is-grŵp (gan gynnwys Cylch Gorchwyl ar gyfer yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth); a chadarnhau cynrychiolydd ar Lys Prifysgol Caerdydd

Y prif destun trafod ar y strwythur diwygiedig oedd creu'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) yn ddiweddar, gan gynnwys rheolwyr ac aelodau'r Cyngor. Eglurwyd nad bwriad hyn oedd ymyrryd â materion gweithredol ac nad oedd wedi'i fwriadu i gynrychioli ffurfio clic; y gobaith fodd bynnag oedd y byddai'n hwyluso gwneud penderfyniadau am rai materion rhwng cyfarfodydd y Cyngor. Enghraifft o hyn yn yr wythnosau diwethaf fu'r ymateb cyflym i gyhoeddiad Llywodraeth Cymru am gyllid, a gallai fod yn ddefnyddiol eto ar ddyfodol safle Harlech yn ystod yr wythnosau nesaf. Roedd yr unigolion dan sylw o'r farn ei fod yn fformat gwell na thrafod/gwneud penderfyniadau trwy e-bost neu dros y ffôn, a chadarnhawyd y byddai'r drefn yn cael ei hadolygu ymhenn blwyddyn. Gwahoddwyd pob aelod o'r Cyngor i fynychu'r cyfarfodydd (ar ddydd lau cyntaf pob mis), a **byddai'r amserlen yn cael ei dosbarthu er gwybodaeth i bawb yn y Cyngor. Roedd y Cyngor yn fodlon fod yr UDA yn dod yn rhan o'r strwythur, ond gwnaed sylwadau ar gryfhau ei Gylch Gorchwyl i ddangos gwahaniad clir rhwng rhannau o gyfarfodydd yr UDA a'r Uwch Dîm Rheoli, yn ogystal â chynnwys mwy o fanylion yn amlinellu cyfrifoldebau'r 2 gorff, gan gyfeirio at Dîm Rheoli'r Coleg hefyd.** Dywedodd Iwan Hywel fod Mentrau Iaith Cymru wedi cyflwyno rhywbeth tebyg o fewn ei strwythur ryw ddwy flynedd yn gynharach, a oedd yn ffordd effeithiol o ddelio â pherthnasoedd llywodraethu/rheoli.

O ran cynrychiolydd ar Lys Prifysgol Caerdydd, esboniodd y Clerc sut roedd Addysg Oedolion Cymru | Adult Learning Wales yn cael ei gynrychioli ar 4 Llys Prifysgol yng Nghymru, trwy gyfuniad o staff craidd, tiwtoriaid a chynrychiolwyr o blith aelodau'r Cyngor. I ddechrau roedd pedwar o bobl (staff ac aelodau'r Cyngor) wedi mynegi diddordeb yn y swydd wag a oedd wedi ymddangos yng Nghaerdydd, er eu bod bellach wedi lleihau i ddau enwebai – Jenni Jones-Annetts a Stephen Nicholls. Darllenwyd datganiadau o fwriad byr, a baratowyd yn flaenorol, ar gyfer y ddau ymgeisydd ac yna cynhaliwyd pleidlais ar bapur ymhlith yr aelodau hynny o'r Cyngor a oedd yn bresennol. Y canlyniad oedd: Jenni Jones-Annetts 7

pleidlais; Stephen Nicholls 2 bleidlais; gydag 1 ymataliad. **Felly, cafodd Jenni Jones-Annetts ei hethol yn briodol yn gynrychiolydd y sefydliad ar Lys Prifysgol Caerdydd, am gyfnod o hyd at ddau dymor olynol o dair blynedd.** Cadarnhawyd y byddai adroddiadau ysgrifenedig byr gan bob cynrychiolydd Llys Prifysgol yn cael eu dosbarthu gyda phapurau ar gyfer ein Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol (CCB) ym mis Mawrth 2019.

12. Adborth ar gyfarfod y Cyngor a materion eraill

Fel yr aelodau newydd, mynegodd Suzanne Samuel a Gareth Cork eu barn y bu papurau'r agenda a'r ffordd y cynhaliwyd y cyfarfod yn glir o ran cynnwys, er bod llawer o fanylion iddynt eto eu deall yn llawn. Cytunwyd y dylid anfon neges 'Brysiwch Wella' at Gerry Jenson ar ran y Cyngor.

13. Dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor a chyfarfodydd eraill a gadarnhawyd ar gyfer 2019

- Dydd Mawrth 29 Ionawr: Caerdydd
- Dydd Llun 4 Mawrth: Y Drenewydd
- CCB – Dydd Sadwrn 23 Mawrth: lleoliad yng ngogledd Cymru
- Dydd Mawrth 17 Mai: Glynebwy
- Dydd Iau 18 Gorffennaf: Cyffordd Llandudno

PWYNTIAU GWEITHREDU

Cyfeiriad	Enw'r cofnod	Camau a gytunwyd	Gweithredu gan bwy	Gweithredu erbyn pryd
Cofnod 4	Adroddiad y Prif Weithredwr	Cytunodd y Cyngor â'r egwyddorion a amlinellwyd yn safbwynt Colegau Cymru ar y mater ynglŷn â dyfarnu cyflogau, ac fel eithriad, dirprwyodd y cyfrifoldeb am benderfynu hyn i'r Pwyllgor Adnoddau a fyddai'n cyfarfod ar 4 Rhagfyr, ar y sail os cadarnheir y byddwn yn cael rhagor o arian gan Lywodraeth Cymru erbyn hynny, felly dylid awdurdodi rhoi'r cynnydd priodol ar waith yn nhaliadau cyflog mis Rhagfyr.	KR / MB	Rhag. 2018
Cofnod 5	Diweddariad am safle Coleg Harlech	Cytunodd y Cyngor i ddirprwyo pwerau i Grŵp Llywio Harlech a'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth i ystyried yr holl gyflwyniadau a dderbyniwyd trwy'r broses dendro, a phe bai yna argymhelliad syml o'u cyfarfod ar 10 Ionawr 2019, y gellid ymgynghori ar hynny ar sail gohebiaeth trwy e-bost gyda'r Cyngor cyfan. Fodd bynnag, pe bai cymhlethdodau o ganlyniad i	KR / CH / holl aelodau Grŵp Llywio Harlech ac aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth	Ion. 2019

		gynigion amrywiol â chyfuniad o amodau, yna cytunwyd y byddai cyfarfod ychwanegol arbennig o'r Cyngor yn cael ei alw ar fyr rybudd yn benodol ar gyfer cymeradwyo penderfyniad am safle Coleg Harlech.		
Cofnod 7	Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Profiad y Dysgwyr ar 6 Tachwedd 2018	Byddai nifer y tiwtoriaid sy'n addysgu o dan 50 awr y flwyddyn (categori a grybwyllir mewn perthynas ag Arsylwadau Addysgu) yn cael ei ddarparu yn ysgrifenedig i'r Cyngor. Byddai Kathryn Robson yn ystyried meincnodi perthnasol fel opsiwn i'w gynnwys mewn rhannau o'r Cynllun Datblygu Ansawdd a Pherfformiad oedd yn esblygu.	MK / KR KR	Ion. 2019 Ion. 2019
Cofnod 10	Adroddiad ar Aelodaeth – Tachwedd 2018	Byddai Michelle Kerswell yn pwysleisio pwysigrwydd ymagwedd gyson a chefnogol at hyrwyddo aelodaeth dysgwyr y sefydliad mewn cyfarfodydd tymhorol tiwtoriaid.	MK	Ion. 2019
Cofnod 11	Materion llywodraethu	Byddai'r amserlen ar gyfer cyfarfodydd yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) yn cael ei dosbarthu i holl aelodau'r Cyngor. Byddai diwygiadau'n cael eu gwneud i gryfhau'r Cylch Gorchwyl i ddangos gwahaniad clir rhwng rhannau o gyfarfodydd yr UDA a'r Uwch Dîm Rheoli, yn ogystal â chynnwys mwy o fanylion yn amlinellu cyfrifoldebau'r 2 gorff, gan gyfeirio at Dîm Rheoli'r Coleg hefyd. Cafodd Jenni Jones-Annetts ei hethol yn gynrychiolydd y sefydliad ar Lys Prifysgol Caerdydd, am gyfnod o hyd at ddau dymor olynol o dair blynedd.	ST KR ST	Rhag. 2018 Ion. 2019 Tach. 2018